

# Dy Fywyd Di, Dy Ofal Di: Canfyddiadau'r arolwg plant 4-7 oed



Fe ofynnnon ni gwestiynau i chi am eich bywyd. Fe ofynnnon ni'r un cwestiynau i lawer o blant mewn gofal. Dyma beth ddwedoch chi i gyd wrthyn ni a beth rydyn ni eisiau gwneud.

## FE DDWEDOCH CHI

### Beth oedd yn dda?

- Roedd pawb ohonoch chi'n teimlo'n sefydlog ac yn hoffi eich ystafell wely.
- Roedd bron pawb ohonoch chi'n teimlo'n ddiogel lle rydych chi'n byw.
- Roedd pawb ohonoch chi'n trystio eich gofalwyr.
- Roedd bron pawb ohonoch chi'n trystio eich gweithwyr cymdeithasol.
- Roedd pawb ohonoch chi'n meddwl eich bod chi'n teimlo'n hapus, neu'n iawn.
- Roedd pawb yn gwneud pethau oedd yn hwyl ar y penwythnos.
- Roedd y rhan fwyaf ohonoch chi yn meddwl bod bywyd yn gwella.

### Beth oedd yn ddrwg?

- Doedd rhai ohonoch chi ddim yn gwybod pam roeddech chi mewn gofal.
- Doedd rhai ohonoch chi ddim yn nabod eich gweithiwr cymdeithasol.
- Roedd rhai ohonoch chi'n teimlo bod oedolion ddim yn sylwi ar eich teimladau.
- Roedd 2 ohonoch chi heb ffrind da.
- Doedd rhai ohonoch chi ddim yn hoffi'r ysgol.

# FE DDWEDOCH CHI

*Byddwn i'n hoffi gweld mwy o Mami.*

*Rydw i'n hapus gyda llawer o ffrindiau.*

*Hoffwn i gael dillad gwisgo i fyny.*

*Dydw i ddim yn hoffi bod cyswllt yn cael ei ganslo achos bod y tacsï ddim yn dod.*



Diolch i bawb ohonoch chi a atebodd y cwestiynau. Roedd yn help mawr darllen am sut rydych chi'n teimlo. Oherwydd beth ddwedoch chi wrthyn ni, mae Rhondda Cynon Taf wedi penderfynu gwneud rhai newidiadau.

## BYDDWN NI'N GWNEUD HYN

1. Dweud wrthyt ti pam dwyt ti ddim yn byw gyda mam a dad.
2. Gwneud yn siŵr dy fod ti'n gwybod pwy yw dy Weithiwr Cymdeithasol.
3. Helpu'r oedolion sy'n gofalu amdanat ti i wrando ar yr hyn sydd gen ti i'w ddweud.
4. Gwneud yn siŵr dy fod ti'n gwybod pwy i fynd ato er mwyn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

**bright spots**

Cafodd yr arolwg ei greu ar y cyd â phlant mewn gofal i ofyn am y pethau oedd yn bwysig iddyn nhw. Mae Coram Voice a Phrifysgol Bryste wedi cynnal yr un arolwg mewn awdurdodau lleol eraill, a byddan nhw'n cyfuno eich ymatebion i ddangos beth yw ystyr gofal i blant ar draws y wlad. I wybod mwy, anfonwch e-bost i: [brightspots@coramvoice.org.uk](mailto:brightspots@coramvoice.org.uk)

# Dy Fywyd Di, Dy Ofal Di: Canfyddiadau'r arolwg plant 8-11 oed



Fe ofynnwn ni gwestiynau i chi am eich bywyd. Fe ofynnwn ni'r un cwestiynau i lawer o blant mewn gofal. Dyma beth ddwedoch chi i gyd wrthyn ni a beth rydyn ni eisiau gwneud.

## FE DDWEDOCH CHI

### Beth oedd yn dda?

- Roedd y rhan fwyaf ohonoch chi'n teimlo bod eich bywydau'n gwella.
- Roedd gan bron pawb ohonoch chi oedolyn y gallech chi drystio.
- Roedd bron pawb ohonoch chi'n nabod ac yn trystio eich gweithiwr cymdeithasol.
- Roedd y rhan fwyaf ohonoch chi'n hoffi'r ysgol.
- Roedd gan bron pawb ohonoch chi ffrind da.
- Roedd llawer ohonoch chi'n cael cyfle i fwynhau yn yr awyr agored a chael hwyl ar y penwythnos.
- Roedd bron pawb ohonoch chi'n hoffi eich stafell wely.

### Beth oedd yn ddrwg?

- Doedd rhai ohonoch chi ddim yn teimlo'n sefydlog lle rydych chi'n byw.
- Roedd ambell un eisiau gwybod mwy am pam roeddech chi mewn gofal.
- Roedd rhai ohonoch chi eisiau mwy o gysylltiad â'ch mamau, eich brodyr a'ch chwiorydd.
- Roedd dros hanner ohonoch chi'n teimlo bod gweithwyr cymdeithasol yn gwneud penderfyniadau heb ofyn i chi nac esbonio pam roedd pethau'n newid.
- Doedd rhai ohonoch chi ddim yn gwybod eich bod chi'n gallu siarad â'ch gweithiwr cymdeithasol ar eich pen eich hun.
- Roedd rhai ohonoch chi'n ofni mynd i'r ysgol weithiau oherwydd bwlio.

# FE DDWEDOCH CHI

**Beth fyddai'n gwneud gofal yn well?**  
*Mwy o hwyl.*

*Rydw i'n hoffi fy mywyd yn well nawr achos rydw i'n gweld mwy o Mami.*

*Rydw i'n byw gyda fy mrawd a'm chwaer. Rydw i'n hapus yn byw gyda nhw.*

*Rydw i eisiau byw gyda Mam a Dad. Rydw i eisiau byw gyda Mam-gu.*



Diolch i bawb ohonoch chi a atebodd y cwestiynau. Roedd yn help mawr darllen am sut rydych chi'n teimlo. Oherwydd beth ddwedoch chi wrthyn ni, mae Rhondda Cynon Taf wedi penderfynu gwneud rhai newidiadau.

## BYDDWN NI'N GWNEUD HYN

1. Gwneud yn siŵr dy fod ti'n gwybod pam dy fod ti'n derbyn gofal.
2. Gwneud yn siŵr bod modd i ti ddweud dy farn a bod oedolion yn gwrando arnat ti wrth benderfynu beth sy'n digwydd i ti.
3. Helpu'r cynhalwyr sy'n gofalu amdanat ti i gymryd amser i ddeall sut rwyd ti'n teimlo.
4. Gwneud yn siŵr dy fod ti'n gwybod pwy i siarad ag e er mwyn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

**bright spots**

Cafodd yr arolwg ei greu ar y cyd â phlant mewn gofal i ofyn am y pethau oedd yn bwysig iddyn nhw. Mae Coram Voice a Phrifysgol Bryste wedi cynnal yr un arolwg mewn awdurdodau lleol eraill, a byddan nhw'n cyfuno eich ymatebion i ddangos beth yw ystyr gofal i blant ar draws y wlad. I wybod mwy, anfonwch e-bost i: [brightspots@coramvoice.org.uk](mailto:brightspots@coramvoice.org.uk)



Ym mis Chwefror 2018 fe ofynnwn ni gwestiynau i chi am eich bywyd er mwyn deall sut gallwn ni ei wella. Fe ofynnwn ni'r un cwestiynau i lawer o blant mewn gofal. Dyma beth ddwedoch chi i gyd wrthyn ni a beth rydyn ni eisiau gwneud.

## FE DDWEDOCH CHI

### Beth oedd yn dda?

- Roedd gan bron pawb ohonoch chi ffrind da.
- Roedd y rhan fwyaf ohonoch chi'n teimlo'n ddiogel gartref, yn hoffi eich stafell wely, yn trystio'ch gofalwyr ac yn meddwl bod eich gofalwyr yn cefnogi eich dysgu yn yr ysgol.
- Roedd y rhan fwyaf ohonoch chi'n teimlo eich bod chi'n cael ail gyfle os oeddech chi'n gwneud rhywbeth o le.
- Roedd bron pawb ohonoch chi'n meddwl bod eich gofalwyr yn sylwi sut roeddech chi'n teimlo.
- Roedd y rhan fwyaf ohonoch chi'n meddwl eich bod chi'n gallu gwneud yr un pethau â'ch ffrindiau sydd ddim mewn gofal.
- Roedd mwyafrif ohonoch chi'n hoffi'r ysgol/ coleg.

### Beth oedd yn ddrwg?

- Roedd eich gweithiwr cymdeithasol yn newid yn aml, a doedd rhai ohonoch chi ddim yn trystio eich gweithiwr cymdeithasol.
- Roedd dros draean ohonoch chi (36%) eisiau gwybod mwy am pam roeddech chi mewn gofal, a doedd hanner ohonoch chi ddim yn hapus am sut roedd cyswllt yn cael ei drefnu.
- Roedd tua thraean ohonoch chi'n poeni am fynd i'r ysgol oherwydd bwlio.
- Roedd rhai ohonoch chi'n poeni am sut rydych chi'n edrych ac am eich teimladau a'ch ymddygiad.
- Roedd rhai ohonoch chi'n teimlo bod oedolion yn achosi embaras i chi trwy dynnu sylw at y ffaith eich bod chi mewn gofal.

# FE DDWEDOCH CHI

*Oedolion yn gwneud beth maen nhw wedi addo rhwng fy nghyfarfodydd.*

*Mewn noson rhieni mae pobl yn dweud, "Dyma dy fam, ontefe?"*

*Rwy'n credu bod cael gofal wedi helpu, achos rwy wedi gallu rheoli fy nheimladau crac yn well ac rwy'n well person nawr. Fy ngofalwyr wnaeth fy helpu fwyaf.*

*Stopio cael cymaint o weithwyr cymdeithasol.*



Diolch i bawb ohonoch chi a atebodd y cwestiynau. Roedd yn help mawr darllen am sut rydych chi'n teimlo. Oherwydd beth ddwedoch chi wrthyn ni, mae Rhondda Cynon Taf wedi penderfynu gwneud rhai newidiadau.

## BYDDWN NI'N GWNEUD HYN

1. Gwneud yn siŵr dy fod ti'n gwybod pam dy fod ti'n derbyn gofal.
2. Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwranddo ar dy farn ac yn ei hystyried o ddifrif wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnat ti.
3. Helpu'r cynhalwyr sy'n gofalu amdanat ti i gymryd amser i ddeall sut rwyd ti'n teimlo.
4. Gwneud yn siŵr dy fod ti'n gwybod pwy i siarad ag e, a lle i fynd, er mwyn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

**bright spots**

Cafodd yr arolwg ei greu ar y cyd â phlant mewn gofal i ofyn am y pethau oedd yn bwysig iddyn nhw. Mae Coram Voice a Phrifysgol Bryste wedi cynnal yr un arolwg mewn awdurdodau lleol eraill, a byddan nhw'n cyfuno eich ymatebion i ddangos beth yw ystyr gofal i blant ar draws y wlad. I wybod mwy, anfonwch e-bost i: [brightspots@coramvoice.org.uk](mailto:brightspots@coramvoice.org.uk)